**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

# RHEOLIADAU GORCHMYNION TRAFFIG AWDURDODAU LLEOL (ESEMPTIADAU AR GYFER PERSONAU ANABL) (CYMRU) 2000

## Y Cefndir

Fe fydd Aelodau wrth gwrs yn gyfarwydd â'r Rheoliadau hyn wedi i'w egwyddor gael ei drafod gan y Cynulliad ar y 22ain o Fehefin 2000.

Ym 1998 gwnaeth Cyngor yr Undeb Ewropeaidd Argymhelliad (anorfodol) ar gyfer system gyffredin o fathodynnau parcio ac esemptiadau ar gyfer pobl anabl ledled yr Undeb Ewropeaidd. Bwriedir y bydd y bathodynnau glas unffurf yn ddilys yn holl wledydd yr UE ac y bydd rheolau cyffelyb o ran esemptiadau parcio yn gymwys yn gyffredinol.

Yn y DU gwneir y Gorchmynion yngln â chyfyngiadau parcio gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"). Pennodd Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1984, Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru a Lloegr) 1986, esemptiadau ar gyfer pobl anabl sy'n ymwneud â gwaharddiadau, terfynau a thaliadau parcio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau 1986 ac (ynghyd â Rheoliadau Personau Anabl) (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000) maent yn darparu ar gyfer system newydd sy'n fwy cyson ag Aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd. Er hynny, nid yw'r Rheoliadau'n cydymffurfio'n llawn â'r argymhelliad i gael cydnabyddiaeth ledled Ewrop, yn rhannol am nad yw un o'r deddfau galluogi (Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970) yn darparu pwerau digonol i alluogi'r bathodynnau cyfatebol mewn Aelod-wladwriaethau eraill i gael eu cydnabod. Deellir bod angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gweithredu Argymhelliad yr UE yn llawn.

## Rheol Sefydlog 11.5

Mae materion a adnabyddwyd yn flaenorol yn awr wedi'u cywiro felly ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel rhai a oedd yn ddigon pwysig i gyfiawnhau eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cynulliad i gymryd sylw arbennig.

## Sylwadau Cyffredinol

Mae mwyafrif y Sylwadau Cyffredinol hefyd wedi’u cywiro er fod rhai sylwadau dal yn berthnasol.

**Rheoliadau 5,6,7,8 a 9**
Mae Rheoliad 5 yn datgan bod y Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw orchymyn a wneir mewn perthynas â ffordd gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru o dan adran 1, 9, 35, 45 neu 46 o Ddeddf 1984. Wedi gwneud hyn ni ddylid ei ailadrodd wedyn yn Rheoliadau 7 ac 8. Yn ychwanegol, mae Rheoliad 9 yn datgan ei bod yn gymwys i Orchmynion o dan adran 45 neu 46 heb unrhyw gyfeiriad yn ôl at Reoliad 5. Mae hyn yn anghyson. Gellid cywiro hyn drwy ychwanegu cymal megis "ac eithrio Rheoliad 9 sy'n gymwys i Orchmynion a wneir o dan adran 45 neu 46 yn unig" ar ddiwedd Rheoliad 5.

**Rheoliad 7(1)(b)**
Gan fod negydd dwbl yn yr ymadrodd, byddai'n haws ei darllen fel "ac nid esemptir cerbydau personau anabl".

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**29 Mehefin 2000**

Ein cyf: LAD-01-01-107